

Caerfyrddin

STRATEGAETH CREU LLEOEDD

Mawrth 2026

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council

Cynnwys

Cyflwyniad **1**

Ynglŷn â Strategaethau Creu Lleoedd 2

Y Dull 3

Crynodeb **4**

Ystyriaethau pwysig **8**

Tueddiadau cyfredol 9

Lleoliad **12**

Yr amgylchfyd cyhoeddus **20**

Symudiad **24**

Cymysgedd o ddefnyddiau **28**

Hunaniaeth **32**

Pobl a chymuned **36**

Newid ar waith **54**

Darparwyd y llun trwy garedigrwydd LocalMotion Caerfyrddin



Cyflwyniad

Ym mis Medi 2025 aeth Cyngor Sir Caerfyrddin ati i ddatblygu strategaethau creu lleoedd ar gyfer tair prif dref y Sir. Mae creu lleoedd yn ganolog i ymagwedd Llywodraeth Cymru at gynllunio. Mae creu lleoedd yn helpu i lunio datblygiad, yn hytrach na'i gymeradwyo yn unig, ac mae'n ceisio cynnwys cymunedau mewn ffordd ystyrlon. Mae hefyd yn helpu i greu dull cydweithredol rhwng partneriaid sy'n ceisio gweithio mewn lle. Nid yn unig y mae'n canolbwyntio ar adeiladau, ond hefyd ar sut y mae pobl yn symud o gwmpas y lle a'r hyn sy'n peri eu bod eisiau treulio amser yno.

Bydd y cynllun creu lleoedd hwn yn cefnogi rhanddeiliaid allweddol Caerfyrddin i wneud cais am gyllid gan gyrff cyllido, a fydd yn cynnwys Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Bydd gan bob un o randdeiliaid Caerfyrddin ran i'w chwarae wrth gyflwyno'r cynllun creu lleoedd hwn.


Ynglŷn â Strategaethau Creu Lleoedd

Mae creu lleoedd yn ymwneud â chreu lleoedd iach, cynaliadwy sy'n cefnogi llesiant cymunedol. Mae Comisiwn Dylunio Cymru wedi helpu i nodi'n glir beth yw creu lleoedd drwy ddatblygu Siarter Creu Lleoedd Cymru. Mae'r siarter yn nodi chwe egwyddor creu lleoedd sy'n helpu i gyfrannu at greu a chynnal lleoedd da. Y rhain yw:

Pobl a chymuned –mae'r gymuned leol yn ymwneud â datblygu cynigion. Mae anghenion, dyheadau, iechyd a llesiant pawb yn cael eu hystyried ar y dechrau. Caiff cynigion eu llunio i helpu i ddiwallu'r anghenion hyn yn ogystal â chreu, integreiddio a diogelu a/neu wella ymdeimlad o gymuned ac i hyrwyddo cydraddoldeb.

Hunaniaeth – mae rhinweddau cadarnhaol, unigryw lleoedd presennol yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Caiff nodweddion a chyfleoedd unigryw lleoliad, gan gynnwys treftadaeth, diwylliant, iaith, nodweddion ffisegol adeiledig a naturiol, eu nodi ac ymatebir iddynt.

Symud – rhoddir blaenoriaeth i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus er mwyn darparu dewis o ddulliau trafnidiaeth ac osgoi dibyniaeth ar gerbydau preifat. Mae llwybrau teithio llesol wedi'u cynllunio'n dda ac yn ddiogel yn cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol ehangach, ac mae gorsafoedd ac aros fannau trafnidiaeth gyhoeddus wedi'u hintegreiddio'n dda.



Ffynhonnell: Canllaw Creu Lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru, wedi'i addasu o Sense of Place Model, Punter (1991)

Cymysgedd o ddefnyddiau – mae gan leoedd ystod o ddibenion sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol, twf busnesau lleol a mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus. Mae dwysedd datblygu a chymysgedd o ddefnyddiau a deiliadaeth yn helpu i gefnogi cymuned amrywiol ac amgylchfyd cyhoeddus bywiog.

Amgylchfyd cyhoeddus – mae strydoedd a mannau cyhoeddus wedi'u diffinio'n dda, maent yn groesawgar, yn ddiogel ac yn gynhwysol gyda hunaniaeth unigryw. Maent wedi'u cynllunio i fod yn gadarn ac yn addasadwy gyda thirwedd, seilwaith gwyrdd a draeniau cynaliadwy wedi'u hintegreiddio'n dda. Maent wedi'u cysylltu'n dda â lleoedd presennol ac yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ac ystod o weithgareddau i bawb.

Lleoliad – dylai lleoedd dyfu a datblygu mewn modd sy'n defnyddio tir yn effeithlon, yn cefnogi ac yn gwella lleoedd presennol ac sydd wedi'i gysylltu'n dda. Mae lleoliad tai, cyflogaeth a hamdden a chyfleusterau eraill wedi'u cynllunio i helpu i leihau'r angen i deithio.

Nid yw strategaethau creu lleoedd yn uwch gynlluniau manwl, ac ni ddylent geisio bod. Efallai y byddant yn ystyried rhai materion dylunio manylach, ond y brif swyddogaeth yw darparu crynodeb clir o'r materion allweddol ar gyfer lle, cyfiawnhau pa faterion yw'r flaenoriaeth, a darparu atebion i'r materion hynny ar ffurf cyfres o gamau gweithredu. Dylid hefyd eu defnyddio fel fframwaith. Nid yw'r byd yn sefyll yn llonydd am oes cynllun, ac felly mae angen i gynlluniau fod â rhywfaint o hyblygrwydd. Dylent fod yn ystwyth, gan ddarparu fframwaith clir, ond heb fod yn rhy ragnodol o ran y manylion. Bydd rhai o'r camau gweithredu arfaethedig mewn cynllun creu lleoedd yn syml ac yn hawdd i'w cyflawni, a bydd rhai elfennau yn gofyn am ystyriaeth ddylunio fanwl ac ymgysylltu pellach i'w gwireddu.

Y dull

Penodwyd Urban Foundry Ltd i gyd-gynhyrchu'r strategaeth creu lleoedd ar gyfer Caerfyrddin gan weithio'n agos gyda'r gymuned leol a'r tîm Datblygu Economaidd yng Nghyngor Sir Caerfyrddin i gyflawni hyn. Mae Ffigur 1 yn dangos beth oedd hyn yn ei olygu.

Roedd y dull yn cynnwys rownd gyntaf o ymgynghori i ddeall beth oedd pobl yn meddwl oedd y materion a'r cyfleoedd yng Nghaerfyrddin. Cafodd hyn wedyn ei ddatblygu yn rhestr o ganlyniadau a chamau gweithredu â blaenoriaeth. Yna ymgynghorwyd ymhellach ynghylch y rhain a'u mireinio, yn gyntaf gyda Fforwm Tref Caerfyrddin ac yna drwy ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r canfyddiadau cyffredinol o'r gwaith.



Ffigur 1 - Dull cydgynhyrchu o greu strategaeth creu lleoedd

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Mae'r strategaeth yn dechrau gyda chrynodeb o'r ffactorau ehangach a fydd yn dylanwadu ar strategaeth creu lleoedd Caerfyrddin.

Yna mae gweddill yr adroddiad wedi'i strwythuro o amgylch pob thema creu lleoedd sy'n nodi:

- **Nawr** – beth yw'r problemau, yr heriau a'r cryfderau yn y dref
- **Ble** – beth mae pobl eisiau ei newid a'i gryfhau dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod
- **Sut** – beth yw'r camau ymarferol a fydd yn cyflawni'r newid hwn

Gall unrhyw un ddefnyddio'r ddogfen, ond mae wedi'i bwriadu fel set gyffredin o flaenoriaethau a chamau gweithredu ar gyfer partneriaid allweddol sy'n gweithio yng Nghaerfyrddin.
Mae hyn yn cynnwys:

- **Fforwm Tref Caerfyrddin** – darparu fframwaith ar gyfer meysydd blaenoriaeth i'r Fforwm Tref ganolbwyntio arnynt
- **Cyngor Tref Caerfyrddin** – darparu tystiolaeth ar gyfer prosiectau a gweithgareddau a helpu i lywio'r gweithgareddau sydd â blaenoriaeth yn y dref
- **Cyngor Sir Caerfyrddin** – arwain y camau gweithredu sydd â blaenoriaeth ar gyfer y Tîm Trefi ac adrannau eraill y Cyngor
- **Y Sector Cymunedol a Gwirfoddol** – darparu tystiolaeth a chefnogaeth ar gyfer prosiectau a rhaglenni
- **Busnesau, Datblygwyr a Buddsoddwyr** – dangos ble mae yna gefnogaeth gref i ddatblygiadau
- **Unigolion** – deall beth mae'r Tasglu a'r Cyngor Sir yn ei flaenoriaethu i wella'r dref a darparu fframwaith atebolrwydd ar gyfer y gwaith hwn. Bob blwyddyn bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn paratoi adroddiad ar gyfer Fforwm Tref Caerfyrddin gan helpu i nodi'r cynnydd a wneir tuag at gyflawni'r strategaeth.

Crynodeb

Dyma grynodeb byr o'r sefyllfa bresennol, beth rydym am i effeithiau'r strategaeth hon fod, a sut y gallwn gyflawni'r effeithiau hynny. Mae'r adrannau sy'n dilyn yn y strategaeth hon yn rhoi mwy o fanylion am bob un o'r meysydd hyn.

Sut mae pethau

Mae Caerfyrddin yn ganolfan ranbarthol bwysig, sy'n gwasanaethu cymunedau gwledig cyfagos. Mae ganddi siopau annibynnol, sefydliadau diwylliannol a gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal ag asedau hanesyddol nodedig, Prifysgol, ardal ddeniadol ar lan yr afon, a chysylltiadau â'r cefn gwlad cyfagos. Ond nid yw'r asedau hyn yn gweithio gyda'i gilydd mor effeithiol ag y gallent.

Mae Canol y Dref yn gwneud yn gymharol dda yn economaidd ond mae llawer o le i wella o hyd. Nid oes yno ymdeimlad clir o gyfeiriad ac mae'n teimlo'n ddigyswllt. Nid yw Heol y Brenin, Rhodfa'r Santes Catrin, y farchnad, y castell a glan yr afon wedi'u cysylltu'n dda. Mae rhai o'r prif lwybrau i mewn i'r dref hefyd yn anneniadol ac nid ydynt yn creu argraff gyntaf dda. Er bod yna asedau gwyrdd da ar yr ymylon, ceir diffyg gwyrddni yng nghanol y dref. Gellid cynnal a chadw'r canol yn well yn gyffredinol.

Ceir sylfaen gref o siopau annibynnol a gweithgarwch diwylliannol, ond mae'r arlwy adwerthu yn dirywio ac nid oes yno ddigon i bobl ifanc, i bobl hŷn nac i annog pobl i aros gyda'r nos. Mae yna hefyd adeiladau gwag a rhai sy'n cael eu tanddefnyddio.

Mae llawer o draffig a meysydd parcio arwyneb yng nghanol y dref a gall fod yn anodd mynd o gwmpas ar droed ac ar feic, neu i bobl ag anghenion hygyrchedd. Nid yw'r drafnidiaeth gyhoeddus bob amser yn aml nac wedi'i chysylltu'n dda.

Mae gan Gaerfyrddin hanes a diwylliant nodedig, gan gynnwys ei gorffennol Rhufeinig a chanoloesol, chwedlau Myrddin, cwryglau, treftadaeth y farchnad a'r Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r hunaniaeth hon bob amser yn weladwy nac yn cael ei hyrwyddo'n dda. Mae pobl hefyd yn teimlo nad ydyn nhw'n cael eu cynnwys yn ddigonol mewn penderfyniadau am ddyfodol y dref, ac y gallai partneriaid weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol.

Beth sydd angen i ni wella

Canlyniadau lleoliad:

- Mwy o weithredu ynghylch polisi cynllunio canol y dref yn gyntaf
- Gwella cysylltiadau â Glan-yr-afon a'r defnydd o'r ardal
- Cryfhau ffurf ofodol y dref
- Datblygu adeiladau allweddol strategol
- Gwella cysylltiadau â llwybrau beicio a chefn gwlad cyfagos
- Gwella cysylltedd
- Cydnabod a chofleidio'r ffurf drefol hanesyddol ar gyfer pob datblygiad yn y dyfodol gyda dyluniad trefol cryf
- Gwella'r modd o fesur a chyfathrebu cynnydd

Canlyniadau cymysgedd o ddefnyddiau:

- Gwella'r cymysgedd o ddefnyddiau yng nghanol y dref
- Cynyddu'r defnydd o'r amgylchfyd cyhoeddus ar gyfer hamdden
- Mwy o fusnesau newydd yn derbyn cymorth

Canlyniadau'r amgylchfyd cyhoeddus:

- Cynnal a chadw a gwella mannau presennol
- Gwella edrychiad, teimlad a defnydd y prif sgwariau
- Mwy o seilwaith gwyrdd drwy'r dref i gyd
- Mwy o ddefnydd o'r strydlun
- Mwy o gyfleoedd i chwarae yn y strydlun
- Gwneud mwy i ddathlu treftadaeth y strydoedd
- Tref lanach
- Tref fwy croesawgar

Canlyniadau symudiad:

- Gwella opsiynau i bobl sy'n cerdded a beicio
- Gwella'r cydbwysedd yng nghanol y dref rhwng ceir a cherddwyr
- Gwella cysylltiadau'r lonydd
- Gwella trafnidiaeth gyhoeddus
- Annog mwy o bobl i wneud arosiadau byr ar y ffordd
- Gwell mynediad i ganol tref Caerfyrddin ar gyfer teithiau arhosiad byr

Canlyniadau hunaniaeth:

- Mwy o ymdeimlad o hunaniaeth i'r dref
- Arddangos y dreftadaeth adeiledig yn well
- Datblygu elfen o hunaniaeth glan afon
- Cryfhau'r sail ddiwylliannol (gref) bresennol
- Brandio lleoedd diwylliannol yn well
- Gwella ymdeimlad o fywiogrwydd ar y stryd
- Integreiddio Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn well i hunaniaeth ac ymdeimlad o le y dref
- Gwella dealltwriaeth o hanes a'i hyrwyddo
- Cryfhau'r Gymraeg drwy weithgareddau creu lleoedd

Canlyniadau pobl a chymunedau:

- Mwy o gyfleoedd i bobl fod yn rhan o ddatblygiad y dref
- Mwy o gydweithio rhwng y llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill
- Mwy o gyfleoedd i bobl ifanc
- Creu mwy o gyfleoedd i bobl hŷn
- Gwella cyfathrebu
- Gwella trefniadau gweithio mewn partneriaeth â'r sector preifat a'r trydydd sector
- Mwy o ddefnydd o greu lleoedd i gael trefi iachach
- Cydlynu polisïau/prosesau mewnol y Cyngor yn well i gefnogi datblygiad canol y dref

Sut y byddwn ni'n cyrraedd yno

Mae'r meysydd gwaith allweddol a nodwyd yn y strategaeth creu lleoedd yn cynnwys:

Cysylltu'r dref a glan yr afon –

Mae'r strategaeth yn cefnogi gwell cysylltiadau rhwng y strydoedd hanesyddol, yr ardaloedd siopa, y castell, y farchnad, glan yr afon a'r cefn gwlad cyfagos. Mae hyn yn cynnwys gwell llwybrau, pyrth ac arwyddion a gwneud mwy o lan yr afon fel cyrchfan.

Cydbwyso anghenion pobl a cheir –

Mae'r strategaeth yn cefnogi cerdded a beicio mwy diogel, strydoedd mwy hygyrch a gwell rheolaeth ar draffig, parcio a danfoniadau. Bydd partneriaid hefyd yn gweithio gyda darparwyr trafnidiaeth i wella trafnidiaeth gyhoeddus.

Rhoi canol y dref yn gyntaf –

Dylai cynlluniau, buddsoddiad a phenderfyniadau'r dyfodol am adeiladau a gwasanaethau cyhoeddus ystyried eu heffaith ar ganol y dref. Bydd camau yn cael eu cymryd i helpu i wneud defnydd unwaith eto o adeiladau gwag a rhai sy'n cael eu tanddefnyddio, a dylai datblygiadau newydd barchu a chryfhau ffurf hanesyddol Caerfyrddin. Bydd canllaw dylunio syml yn helpu i sicrhau bod datblygiadau newydd a gwelliannau i adeiladau yn cryfhau cymeriad, ansawdd a chysylltedd Caerfyrddin.

Cefnogi cymysgedd ehangach o ddefnyddiau –

Bydd y strategaeth yn cefnogi busnesau annibynnol a busnesau newydd, defnyddiau dros dro ac yn y cyfamser, a mwy o gartrefi yng nghanol y dref. Bydd hefyd yn creu mwy o gyfleoedd ar gyfer hamdden, diwylliant a gweithgareddau gyda'r nos.

Creu mannau mwy gwyrdd a mwy croesawgar –

Mae'r blaenoriaethau yn cynnwys gwella Maes Nott a'r Clos Mawr, datblygu strategaeth seilwaith gwyrdd yng nghanol y dref a sicrhau bod ardaloedd wedi'u plannu a mannau presennol yn cael eu cynnal a'u cadw'n iawn. Bydd mwy o seddi, mannau chwarae, goleuadau a gweithgareddau yn annog pobl i dreulio amser yn y dref.

Cryfhau hunaniaeth Caerfyrddin –

Bydd hanes Rhufeinig a chanoloesol y dref, chwedlau Merlin, treftadaeth y farchnad, cwryglau, y Gymraeg a'r diwylliant creadigol yn dod yn fwy gweladwy trwy frandio, arwyddion, digwyddiadau a llwybrau digidol. Bydd y cynllun hefyd yn cryfhau trefniadau cydweithio gyda'r Brifysgol a sefydliadau diwylliannol.

Rhoi cyfranogiad cymunedol ar waith –

Bydd y Fforwm Tref yn dod â phartneriaid at ei gilydd i yrru'r strategaeth yn ei blaen, gyda chefnogaeth trwy ymgysylltu'n rheolaidd â'r gymuned a chysylltiadau cryfach â'r sector preifat a'r trydydd sector. Bydd cynnydd yn cael ei fesur a'i adrodd fel y gall pobl weld beth sy'n newid.

Ystyriaethau pwysig

Yn yr adran hon rydym yn nodi rhai tueddiadau byd-eang, cenedlaethol a lleol a fydd yn llywio'r strategaeth creu lleoedd. Cofiwch ein bod wedi darparu crynodeb syml o'r tueddiadau i helpu i esbonio'r cefndir y tu ôl i'r adroddiad hwn. Mae'r atodiad technegol yn cynnwys rhagor o fanylion, gan gynnwys y data a'r wybodaeth sy'n sail i'r tueddiadau hyn.

Tueddiadau cyfredol

Tueddiadau yn ymwneud â phobl

Yn gyffredinol, mae poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn tyfu, ac mae hyn hefyd yn wir am Gaerfyrddin. Rhwng 2011 a 2021 cynyddodd poblogaeth Caerfyrddin 3%. Ond mae newidiadau wedi bod yn y ddemograffeg. Mae cyfran y bobl ifanc (15 oed ac iau) wedi cynyddu 7% ac mae cyfran y bobl o oedran gweithio (16 i 64) wedi gostwng 1%. Mae nifer y bobl hŷn (65+ oed) wedi cynyddu 13%. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn gostwng, o 41% yn 2011 i lawr i 38% yn 2021.

Mae iechyd cyffredinol pobl yn Sir Gaerfyrddin yn gwella. Yn 2021, dywedodd 47.2% o drigolion Sir Gaerfyrddin bod eu hiechyd yn "dda iawn", gan gynyddu o 45.7% yn 2011. Tra bod y rheiny oedd yn disgrifio eu hiechyd fel "gwael" wedi gostwng o 6.0% i 5.2%. Gostyngodd canran y bobl y nodwyd eu bod yn anabl ac wedi'u cyfyngu i raddau helaeth yn Sir Gaerfyrddin o 13.0% i 10.5%, tra gostyngodd canran y bobl y nodwyd eu bod yn anabl ac wedi'u cyfyngu ychydig o 11.4% i 11.1%. Mae'r data cyfredol ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn awgrymu gostyngiad bach yn y disgwyliad oes. Mae 56% o bobl yng Nghaerfyrddin yn economaidd weithgar ac mae yna lefelau isel o ddiweithdra, sef dim ond 3%.

Mae'r rhain yn dueddiadau pwysig. Mae'n helpu i ddangos bod Caerfyrddin yn tyfu, ond mae hefyd yn newid. Mae pobl yn hŷn ond mae iechyd wedi gwella ac mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn gostwng. Mae lefelau diweithdra yn isel ac mae lefelau gweithgarwch economaidd yn parhau i fod yn sefydlog. Mae hyn yn bwysig i greu lleoedd gan ei fod yn helpu i dynnu sylw at bwysigrwydd cryfhau'r Gymraeg drwy bob gweithgaredd a chydnabod sut y mae'r boblogaeth yn newid dros amser.

Tueddiadau o amgylch canol trefi

Mae'r cymysgedd o ddefnyddiau adwerthu yng Nghaerfyrddin yn adlewyrchu cyfartaledd Sir Gaerfyrddin yn fras, ond mae sawl gwahaniaeth. Mae gan y ganolfan gyfran ychydig yn uwch o adwerthwyr cymharu o gymharu â chyfartaledd Sir Gaerfyrddin a'r DU, er gwaethaf y gyfradd uwch o siopau gwag. Ceir darpariaeth gymharol isel o siopau nwyddau cyfleustra, bwytai a chaffis a siopau cludfwyd poeth.

Helpodd Astudiaeth Adwerthu Sir Gaerfyrddin yn 2023 i dynnu sylw at yr awydd ymhlith defnyddwyr canol tref Caerfyrddin am lai o siopau gwag, gwell siopau bwyd a mwy ohonynt a pharcio rhatach.

Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol iawn i ddulliau 'canol y dref yn gyntaf' ac yn rhoi pwyslais ar greu lleoedd, ond ceir pwysau parhaus gan ddatblygiadau y tu allan i'r dref (rhai ohonynt yn newydd, rhai wedi'u hadeiladu yn y gorffennol). Ynghyd â hyn, mae costau cyfalaf deunyddiau a llafur hefyd wedi cynyddu'n sylweddol, gan wneud datblygu yn fwy costus; ceir pwysau chwyddiant ar gostau refeniw ar gyfer staffio ynghyd â chynnydd i Yswiriant Gwladol Cyflogwyr, a chynnydd sylweddol mewn gorbenion eraill (yn enwedig cyfleustodau), ynghyd â lleihau neu ddileu rhyddhad ôl-Covid ar ardrethi busnes.

Ar yr un pryd, mae pŵer prynu yn yr economi wedi'i wasgu ar gyfer unigolion ond hefyd i lawer o gwmnïau a chyrff sector cyhoeddus. Y prif golledion yn sgil Covid oedd y cwmnïau cenedlaethol mawr, a oedd yn amlwg iawn ar y stryd fawr mewn trefi a dinasoedd mwy. Mae'n annhebygol iawn y bydd cwmnïau cenedlaethol eraill yn dod i gymryd eu lle. Mae hyn yn creu effeithiau niferus, gan gynnwys canfyddiadau negyddol ynghylch sut y caiff trefi eu gweld a cholli siopau stryd fawr a fyddai'n denu ymwelwyr.

Bum mlynedd ar ôl i'r pandemig Covid-19 newid y ffordd rydym yn gweithio, yng Nghymru mae 42% o weithwyr yn gweithio gartref o leiaf peth o'r amser[1]. Mae mwy o bobl yn gweithio gartref yn barhaol a llawer mwy yn gweithio mewn modd hybrid. Nod polisi presennol Llywodraeth Cymru yw cael tua 30% o'r gweithlu yn gweithio gartref ar unrhyw adeg i leihau traffig cymudwyr. Mae'n rhy gynnar i ddweud, ond er y bydd manteision amgylcheddol clir o wneud hyn, gall hefyd arwain at leihau'r galw am yr economi leol iawn yng nghanol trefi.

Ond ar draws Cymru a'r DU mae ymchwil sylweddol yn dangos sut rydyn ni am dreulio ein hamser a'r effaith a gaiff hyn ar ganol trefi. Mae'n helpu i ddangos bod trefi sy'n cofleidio dull defnydd cymysg, gyda ffocws ar y gymuned, yn mynd yn groes i'r tueddiadau cenedlaethol o ran y dirywiad mewn canol trefi. Mae'r ymchwil hefyd yn dangos bod defnyddwyr modern eisiau profiad pan fyddant yn mynd i'r dref, nid mynd ar neges yn unig. Efallai y byddant yn cael coffi, yn gwneud bach o siopa, yn gweld arddangosfa, ac yn cwrdd â ffrindiau i gyd mewn un daith[2]. Mae canol trefi sy'n hwyluso'r gweithgareddau amrywiol hyn yn gweld cynnydd mewn teyrngarwch ac amser oedi.

Mae'r tueddiadau hyn yn dangos newid yn y ffordd yr ydym yn defnyddio ein hamser hamdden a'r hyn yr ydym ei eisiau gan ganol ein trefi. Maent yn dod yn gyrchfannau y mae pobl yn ymweld â nhw am sawl rheswm mewn un ymweliad. Mae hyn yn bwysig i greu lleoedd gan fod angen i'r strategaeth ystyried nid yn unig sut mae pobl yn defnyddio Caerfyrddin nawr, ond sut mae hynny'n debygol o newid yn y tymor canolig i'r tymor hir.

1 https://www.gov.wales/sites/default/files/pdf-versions/2026/2/3/1770823261/remote-working-national-survey-wales-april-2024-march-2025.pdf
2 https://retail-focus.co.uk/community-hubs-shopping-centres-of-the-future/#:~:text=She%20notes%20research%20by%20Gensler%2C,day%20such%20as%20cookery%20classes

Tueddiadau ehangach

Bydd penderfyniadau a wneir yn genedlaethol yn dylanwadu ar allu Cyngor Sir Caerfyrddin a phartneriaid eraill i gyflawni'r strategaeth creu lleoedd. Mae llawer o'r cyd-destun strategol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi'r ethos y tu ôl i greu lleoedd. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi ffocws cryf ar ddatblygu cynaliadwy sydd wedi'i ymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae'r ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflawni datblygu cynaliadwy ac i wneud hynny trwy ddilyn pum ffordd o weithio:

- **Hirdymor** – meddwl y tu hwnt i atebion byrdymor
- **Atal** – atal problemau cyn iddynt ddigwydd
- **Integreiddio** – cyfuno gwahanol amcanion
- **Cydweithio** – gweithio gyda sefydliadau eraill
- **Cyfranogiad** – cynnwys pobl a chymunedau

Mae hyn wedi'i ymgorffori'n llawn yn null Cyngor Sir Caerfyrddin o lunio'r strategaeth creu lleoedd hon.

Fodd bynnag, efallai y bydd digwyddiadau byd-eang ehangach yn ei gwneud hi'n anoddach cynnal yr amgylchedd cefnogol hwn ar gyfer creu lleoedd cynaliadwy yn y blynyddoedd i ddod. Cafodd y strategaethau blaenorol ar lefel tref eu creu o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig Covid-19. Cyn y digwyddiad byd-eang hwnnw yr oedd argyfwng ariannol 2008, ac yn dilyn Covid-19 mae rhyfeloedd wedi bod yn Wcráin a'r Dwyrain Canol.

Mae'r digwyddiadau hyn yn cael effaith uniongyrchol ar greu lleoedd. Maent yn effeithio ar y straen sydd ar aelwydydd oherwydd costau byw a phrisiau tanwydd cynyddol. Maent yn effeithio ar barodrwydd busnesau i gymryd risg a gallant ei gwneud hi'n anoddach cynnal y canol trefi bywiog y mae'r strategaeth hon yn ceisio eu cefnogi.

Byddant hefyd yn effeithio ar faint o gynnydd a wneir dros ba gyfnod amser gyda'r strategaeth. Mae hyn yn rhan bwysig o ddeall creu lleoedd, mae'n ddull lleol ond mae'n uniongyrchol gysylltiedig â digwyddiadau ehangach ac amgylchedd strategol sy'n newid yn barhaus.

Lleoliad

Ar gyfer y thema lleoliad, mae gennym ddiddordeb mewn deall pa mor dda ydym am sicrhau bod yr holl ddatblygiadau yn gwneud y lle yn well a deall a oes gennym y cymysgedd cywir o ddatblygiadau yng Nghaerfyrddin.


Mae'r egwyddorion creu lleoedd yn diffinio'r maes hwn fel:

Dylai lleoedd dyfu a datblygu mewn modd sy'n defnyddio tir yn effeithlon, sy'n cefnogi ac yn gwella lleoedd presennol ac sydd wedi'i gysylltu'n dda. Mae lleoliad tai, cyflogaeth a hamdden a chyfleusterau eraill wedi'i gynllunio i helpu i leihau'r angen i deithio.

Beth wnaethom ei ddarganfodd

Drwy'r ymgynghoriad, at ei gilydd cafodd 'Lleoliad' sgôr o 4.8 allan o 10 yng Nghaerfyrddin

Mae'r dadansoddiad manylach yn dangos bod pobl yn teimlo bod gan Gaerfyrddin bopeth sydd ei angen arnynt ar gyfer eu hanghenion bob dydd a bod y dref yn gwasanaethu'r ardaloedd cyfagos yn rhesymol dda. Ond mae hefyd yn nodi cyfle amlwg i greu cyfeiriad clir ar gyfer dyfodol Caerfyrddin.



Nododd yr ymgynghoriad a'n dadansoddiad ein hunain y pwyntiau allweddol canlynol:

- **Digyswllt** – Disgrifiodd pobl y cynllun fel un digyswllt, gydag atyniadau mawr ac ardaloedd adwerthu wedi'u gwasgaru (Heol y Brenin, Rhodfa'r Santes Catrin, Pen-sarn, y farchnad, glan yr afon); roedd pobl hefyd yn teimlo y gallai ymwelwyr gael trafferth dod o hyd i ardaloedd allweddol
- **Llwybrau i mewn i'r dref** – Nododd pobl fod y llwybrau i mewn i'r dref yn anneniadol, yn enwedig y ffordd i mewn o'r gorllewin
- **Cryfhau cysylltiadau** – Cafodd glan yr afon a'r cysylltiad ag Abergwili, Parc yr Esgob, yr amgueddfa, a Llwybr Dyffryn Tywi eu nodi fel cyfleoedd mawr
- **Rôl ranbarthol** – Teimlai pobl y dylai Caerfyrddin weithredu fel "canolfan ranbarthol" ar gyfer gorllewin Sir Gaerfyrddin ond ar hyn o bryd nid yw'n marchnata ei hun fel y cyfryw

Nododd ein hadolygiad ein hunain a'r ymgynghoriad y canlyniadau creu lleoedd canlynol ar gyfer lleoli yng Nghaerfyrddin:

- Mwy o weithredu ynghylch polisi cynllunio canol y dref yn gyntaf
- Gwella cysylltiadau â Glan-yr-afon a'r defnydd o'r ardal
- Cryfhau ffurf ofodol y dref
- Datblygu adeiladau allweddol strategol
- Gwella cysylltiadau â llwybrau beicio a chefn gwlad cyfagos
- Gwella cysylltedd
- Cydnabod a chofleidio'r ffurf drefol hanesyddol ar gyfer pob datblygiad yn y dyfodol gyda dyluniad trefol cryf
- Gwella'r modd o fesur a chyfathrebu cynnydd


Roedd yr adborth a gawsom drwy'r ymgynghoriad yn cynnwys:


"Mae traffig yn niwsans cyson yn y dref; byddai rheoli traffig yn well yn hynod fanteisiol."


"Rwyf wrth fy modd yma, mae gan y dref bopeth sydd ei angen arnaf."


"Heol y Brenin yw'r heol farchnad hynaf yng Nghymru ac mae angen ei dathlu/ marchnata'n iawn"

"Mae ardal glan yr afon yn cael ei thanddefnyddio a gallai ddenu llawer mwy o bobl na'r canol diflas."


URBAN
FOUNDRY
Llinellau symudiad allweddol
Cysylltedd gwan o'r gogledd i'r de
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025. Arolwg Ordnans 100023377
© Crown Copyright and database rights 2025. Ordnance Survey 100023377


URBAN
FOUNDRY
Ffryntiadau gweithredol
Cefnau Diamddiffyn / Ffryntiadau Marw
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025. Arolwg Ordnans 100023377
© Crown Copyright and database rights 2025. Ordnance Survey 100023377


URBAN
FOUNDRY
Cysylltiadau sydd angen eu gwella
I'r orsaf drenau
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025. Arolwg Ordnans 100023377
© Crown Copyright and database rights 2025. Ordnance Survey 100023377


URBAN
FOUNDRY
Parcio
Llecynnau gwyrdd
Mae cryn dipyn o dir gwerthfawr yng nghanol y dref wedi'i neilltuo i barcio ceir, llawer ohono i feysydd parcio arwyneb.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025. Arolwg Ordnans 100023377
© Crown Copyright and database rights 2025. Ordnance Survey 100023377

Yr amgylchfyd cyhoeddus

Ar gyfer thema'r amgylchfyd cyhoeddus mae gennym ddiddordeb mewn deall pa mor ddiogel mae mannau cyhoeddus yn teimlo yng Nghaerfyrddin, pa mor wyrdd yw'r dref a pha mor dda mae'r mannau cyhoeddus yn teimlo fel 'mannau pobl'.


Mae'r egwyddorion creu lleoedd yn diffinio'r maes hwn fel:

Amgylchfyd cyhoeddus – mae strydoedd a mannau cyhoeddus wedi'u diffinio'n dda, maent yn groesawgar, yn ddiogel ac yn gynhwysol gyda hunaniaeth unigryw. Maent wedi'u cynllunio i fod yn gadarn ac yn addasadwy gyda thirwedd, seilwaith gwyrdd a draeniau cynaliadwy wedi'u hintegreiddio'n dda. Maent wedi'u cysylltu'n dda â lleoedd presennol ac yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ac ystod o weithgareddau i bawb.

Beth wnaethom ei ddarganfodd

Drwy'r ymgynghoriad, at ei gilydd cafodd 'Yr amgylchfyd cyhoeddus' sgôr o 4.8 allan o 10 yng Nghaerfyrddin

Mae'r dadansoddiad manylach yn dangos bod pobl yn teimlo bod angen mwy o wyrddni ar y dref ond ei bod yn lle diogel i fod ynddo yn ystod y dydd.



Nododd yr ymgynghoriad y pwyntiau allweddol canlynol:

- **Cynnal a chadw** – Mae pobl yn teimlo nad yw'r dref yn cael ei chynnal a'i chadw'n ddigonol a bod y gwaith cynnal a chadw yn anghyson. Mae hyn yn cynnwys sbwriel, chwyn a biniau yn ogystal â'r angen i gynnal adeiladau treftadaeth
- **Cynlluniau plannu** – Roedd pobl yn teimlo bod cynlluniau plannu newydd yn cael eu hesgeuluso oherwydd diffyg cynnal a chadw
- **Gwyrddni** – Nodwyd bod angen mwy o wyrddni yng nghanol y dref ond roedd pobl yn cydnabod y gwaith plannu o ansawdd uchel yn y parc
- **Mannau oedi** – Mae galw mawr am fwy o seddi, cysgodfannau, goleuadau, coed, blodau a mannau cyhoeddus deniadol lle gall pobl oedi neu gyfarfod

Nododd ein hadolygiad ein hunain a'r ymgynghoriad y canlyniadau creu lleoedd canlynol ar gyfer yr amgylchfyd cyhoeddus yng Nghaerfyrddin:

- Cynnal a chadw a gwella mannau presennol
- Gwella edrychiad, teimlad a defnydd y prif sgwariau
- Mwy o seilwaith gwyrdd drwy'r dref i gyd
- Mwy o ddefnydd o'r strydlun
- Mwy o gyfleoedd i chwarae yn y strydlun
- Gwneud mwy i ddathlu treftadaeth y strydoedd
- Tref lanach
- Tref fwy croesawgar

Roedd yr adborth a gawsom drwy'r ymgynghoriad yn cynnwys:

"Mae angen cadw blychau plannu yn daclus; rydych chi'n eu gweld nhw'n ymddangos, yn meddwl y gorau, ond nid oes neb yn gofalu amdanyn nhw"

"Baw cŵn ym mhobman. Biniau'n gorlifo. Tipio anghyfreithlon rheolaidd. Mae'r lle yn llanast"

"Mae ardaloedd bach fel Sgwâr Jackson yn cynnig mannau gwyrdd yng nghanol y dref"

"Yn ddiogel a chroesawgar, yn enwedig yn y nos"

Symudiad

Ar gyfer y thema symudiad mae gennym ddiddordeb mewn deall pa mor hawdd yw hi i gyrraedd Caerfyrddin, pa mor hawdd yw hi symud o gwmpas y dref, ac a yw hyn yn haws neu'n anoddach yn dibynnu ar lefel symudedd. Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn deall sut mae'r gwahanol rannau o'r system drafnidiaeth yn cysylltu gyda'i gilydd.


Mae'r egwyddorion creu lleoedd yn diffinio'r maes hwn fel:

Rhoddir blaenoriaeth i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus er mwyn darparu dewis o ddulliau trafnidiaeth ac osgoi dibyniaeth ar gerbydau preifat. Mae llwybrau teithio llesol wedi'u cynllunio'n dda ac yn ddiogel yn cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol ehangach, ac mae gorsafoedd ac aros fannau trafnidiaeth gyhoeddus wedi'u hintegreiddio'n dda.

Beth wnaethom ei ddarganfodd

Drwy'r ymgynghoriad, at ei gilydd cafodd 'Symudiad' sgôr o 4.9 allan o 10 yng Nghaerfyrddin

Mae'r dadansoddiad manylach yn dangos bod pobl yn teimlo'n ddiogel fel cerddwyr ond yn llai diogel fel beicwyr wrth symud o gwmpas Caerfyrddin. Mae pobl hefyd yn ei chael hi'n hawdd dod o hyd i'w ffordd o amgylch y dref.



Nododd yr ymgynghoriad y pwyntiau allweddol canlynol:

- **Ceir ym mhobman** – Nododd pobl fod Caerfyrddin yn dref llawn tagfeydd, gyda cheir ym mhobman ac sy'n gynyddol anodd mynd o'i chwmpas ar droed neu ar feic
- **Rheoli traffig** – Mae llawer yn teimlo bod y system rheoli traffig yn hen ffasiwn a bod mynediad cyson i gerbydau yn tanseilio diogelwch cerddwyr, yn enwedig ar strydoedd sydd wedi'u "cyfyngu i gerddwyr" megis Heol y Brenin, Maes Nott, y Clos Mawr a Heol Awst
- **Trafnidiaeth gyhoeddus** – Ystyrir bod trafnidiaeth gyhoeddus yn wasanaeth annibynadwy, anaml ac sydd â chysylltiadau annigonol â phentrefi gwledig, y Brifysgol, ardaloedd twristaidd, a threfi cyfagos. Mae gwasanaethau gyda'r hwyr ac ar y penwythnos yn arbennig o wael
- **Parcio** – Caiff ffioedd parcio eu disgrifio fel rhai costus, dryslyd, anghyson a niweidiol i nifer yr ymwelwyr
- **Hygyrchedd** – Mae pobl sydd â heriau hygyrchedd yn dweud bod y dref yn anodd symud o'i chwmpas oherwydd palmentydd cul, arwynebau anwastad a diffyg cyrbau isel

Nododd ein hadolygiad ein hunain a'r ymgynghoriad y canlyniadau creu lleoedd canlynol ar gyfer symudiad yng Nghaerfyrddin:

- Gwella opsiynau i bobl sy'n cerdded a beicio
- Gwella'r cydbwysedd yng nghanol y dref rhwng ceir a cherddwyr
- Gwella cysylltiadau'r lonydd
- Gwella trafnidiaeth gyhoeddus
- Annog mwy o bobl i wneud arosiadau byr ar y ffordd
- Gwell mynediad i ganol tref Caerfyrddin ar gyfer teithiau arhosiad byr

Roedd yr adborth a gawsom drwy'r ymgynghoriad yn cynnwys:

"Pam nad oes llawer o fysiau ar ôl 5:30pm. Mae anhawster parcio ceir yn y dref yn gwneud i siopwyr fynd i uwchfarchnadoedd. Mae angen mwy o lwybrau beicio, mae'r cylchfannau yn beryglus."

"Rwy'n teimlo'n ddiogel yn cerdded drwy'r dref yn y nos ond nid yw fy ngwraig yn teimlo'n ddiogel yn gwneud hynny"

"Efallai cynnig parcio am ddim am yr 20 munud cyntaf, byddai'n ddefnyddiol os oes angen i chi fod yn y dref am gyfnod byr"

"Parcio am ddim ar ddydd Sul, dylai hyn ddod â mwy o fasnach i mewn i helpu siopau yn hytrach na gweld busnesau yn cau. Rwy'n gwerthfawrogi'r parcio am ddim ar ddydd Mawrth a dydd Iau ar ôl 3.30pm; ond mae llawer o bobl yn gweithio ac erbyn iddyn nhw fynd i mewn i'r dref, mae'r holl siopau ar gau"

Cymysgedd o ddefnyddiau

Ar gyfer y thema cymysgedd o ddefnyddiau, mae gennym ddiddordeb mewn deall pa mor dda yw Caerfyrddin fel cymysgedd o le i fyw ynddo, dysgu, gweithgareddau diwylliannol/hamdden a swyddogaethau swyddfa ochr yn ochr ag adwerthu.


Mae'r egwyddorion creu lleoedd yn diffinio'r maes hwn fel:

Mae gan leoedd ystod o ddibenion sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol, twf busnesau lleol a mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus. Mae dwysedd datblygu a chymysgedd o ddefnyddiau a deiliadaeth yn helpu i gefnogi cymuned amrywiol ac amgylchfyd cyhoeddus bywiog.

Beth wnaethom ei ddarganfodd

Drwy'r ymgynghoriad, at ei gilydd cafodd 'Cymysgedd o ddefnyddiau' sgôr o 4.6 allan o 10 yng Nghaerfyrddin

Mae'r dadansoddiad manylach yn dangos bod pobl yn cydnabod cryfder y cynnig adwerthu ond hefyd bod cyfleoedd i gynnig mwy i blant a phobl hŷn yng nghanol y dref.



Nododd yr ymgynghoriad y pwyntiau allweddol canlynol:

- **Cynnig adwerthu** – Nododd pobl fod Caerfyrddin yn cael ei gweld fel tref sy'n dioddef yn sgil y dirywiad mewn adwerthu, gyda gormod o siopau elusen, siopau fêps, barbwyr ac unedau gwag. Roedd sylwadau hefyd gan bobl a oedd yn dymuno gweld gwell amrywiaeth adwerthu
- **Cymysgedd o ddefnyddiau** – Nododd yr ymgynghoriad awydd am gymysgedd ehangach o ddefnyddiau: adwerthu, hamdden, diwylliant, mannau cymunedol, bwyd, marchnadoedd a gweithgareddau gyda'r hwyr
- **Hamdden, ieuenctid a digwyddiadau** – Galwodd pobl am fwy o bethau i'w gwneud: gweithgareddau i'r teulu, mannau ieuenctid, cerddoriaeth fyw, marchnadoedd, mannau perfformio, hamdden dan do, rhaglenni diwylliannol, lleoliadau, gweithdai, stiwdios creadigol
- **Defnyddio adeiladau** – Codwyd pryderon am drawsnewidiad Debenhams gyda rhai yn nodi defnyddiau amgen
- **Cymorth** – Nododd pobl yr angen am fwy o gymorth i fusnesau bach, rhenti is a chymhellion

Nododd ein hadolygiad ein hunain a'r ymgynghoriad y canlyniadau creu lleoedd canlynol ar gyfer y cymysgedd o ddefnyddiau yng Nghaerfyrddin:

- Gwella'r cymysgedd o ddefnyddiau yng nghanol y dref
- Cynyddu'r defnydd o'r amgylchfyd cyhoeddus ar gyfer hamdden
- Mwy o fusnesau newydd yn derbyn cymorth

Roedd yr adborth a gawsom drwy'r ymgynghoriad yn cynnwys:

"Mae Heol y Brenin yn arbennig iawn - llawer o siopau annibynnol sy'n wych. Mae'r holl strydoedd wedi llwyddo i osgoi'r siopau bwyd cyflym. Da iawn"

"Mae angen ardaloedd arnon ni sy'n annog pobl i gyfarfod, bod yn egnïol a chymysgu mewn grwpiau o bob oed."

"Siopau gwag – mae angen ailddiffinio canol y dref"

"Mae angen mwy o fannau diwylliannol, crefftau lleol, defnyddio rhai o'r siopau gwag i arddangos ein treftadaeth amaethyddol. Pan fydd siopau lleol yn agor, mae angen help arnon nhw am yr ychydig flynyddoedd cyntaf trwy roi ardrethi busnes priodol."

Hunaniaeth

Ar gyfer y thema hunaniaeth, mae gennym ddiddordeb mewn deall beth yw nodweddion Caerfyrddin sy'n ei gwneud yn unigryw ac a yw Caerfyrddin yn gwneud y mwyaf o'r nodweddion hyn.


Mae'r egwyddorion creu lleoedd yn diffinio'r maes hwn fel:

Mae rhinweddau cadarnhaol, unigryw lleoedd presennol yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Caiff nodweddion a chyfleoedd unigryw lleoliad, gan gynnwys treftadaeth, diwylliant, iaith, nodweddion ffisegol adeiledig a naturiol, eu nodi ac ymatebir iddynt.

Beth wnaethom ei ddarganfodd

Drwy'r ymgynghoriad, at ei gilydd cafodd 'Hunaniaeth' sgôr o 4.9 allan o 10 yng Nghaerfyrddin.

Mae'r dadansoddiad manylach yn dangos bod pobl yn teimlo'n gryf y dylai'r dref wneud mwy i hyrwyddo canol y dref ac mae cyfle sylweddol i gynyddu ymdeimlad pobl o falchder yng nghanol y dref.



Nododd yr ymgynghoriad y pwyntiau allweddol canlynol:

- **Hunaniaeth yn pylu** – Nododd pobl sut maen nhw'n teimlo bod hunaniaeth y dref wedi pylu. Er bod gan y dref gyfoeth o hanes - y Rhufeiniaid, Myrddin, cwryglau, strydoedd canoloesol, diwylliant tref farchnad - mae trigolion yn teimlo bod yr asedau hyn yn cael eu hyrwyddo'n wael, eu tanddefnyddio neu eu hesgeuluso
- **More of the same** – Mae pryder bod y dref yn mynd yn "dref glôn", gan golli ei threftadaeth Gymreig, ei diwylliant creadigol a'i hymdeimlad o le
- **Stori** – Dywedodd pobl fod ymwelwyr yn dweud nad yw stori'r dref yn glir
- **Profiadau** – roedd pobl yn tynnu sylw at arwyddion gwael ar gyfer atyniadau hanesyddol a diffyg profiadau i ymwelwyr. Mae yno falchder diwylliannol, ond mae pobl eisiau i Gaerfyrddin fynegi ei threftadaeth yn fwy hyderus a chreadigol trwy ddigwyddiadau, adrodd straeon, pensaernïaeth, a chelf gyhoeddus

Nododd ein hadolygiad ein hunain a'r ymgynghoriad y canlyniadau creu lleoedd canlynol ar gyfer hunaniaeth yng Nghaerfyrddin:

- Mwy o ymdeimlad o hunaniaeth i'r dref
- Arddangos y dreftadaeth adeiledig yn well
- Datblygu elfen o hunaniaeth glan afon
- Cryfhau'r sail ddiwylliannol (gref) bresennol
- Brandio lleoedd diwylliannol yn well
- Gwella ymdeimlad o fywiogrwydd ar y stryd
- Integreiddio Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn well i hunaniaeth ac ymdeimlad o le y dref
- Gwella dealltwriaeth o hanes a'i hyrwyddo
- Cryfhau'r Gymraeg drwy weithgareddau creu lleoedd

Roedd yr adborth a gawsom drwy'r ymgynghoriad yn cynnwys:

"Dydw i ddim yn meddwl bod gan y dref hunaniaeth, mae wedi cael ei cholli dros flynyddoedd o chwalu'r hen gymeriad ac nawr mae'n edrych fel unrhyw dref arall. Mae ymwelwyr yn stopio ac yn gofyn a oes mwy i'r dref na'r siopau gwag!"

"Cyfathrebu gwael a diffyg hyrwyddo digwyddiadau. Amgueddfa ddim yng nghanol y dref"

"Hanes gwych... yn anffodus ddim yn cael ei ddefnyddio ddigon"

"Dydyn ni ddim yn gwneud y mwyaf o'n hunaniaeth ddiwylliannol"

Pobl a chymuned

Ar gyfer y thema pobl a chymuned, mae gennym ddiddordeb mewn pa mor dda yw'r partneriaid allweddol yn y dref am greu cyfranogiad cymunedol gwirioneddol fel proses barhaus..


Mae'r egwyddorion creu lleoedd yn diffinio'r maes hwn fel:

Mae'r gymuned leol yn ymwneud â datblygu cynigion. Mae anghenion, dyheadau, iechyd a llesiant pawb yn cael eu hystyried ar y dechrau. Caiff cynigion eu llunio i helpu i ddiwallu'r anghenion hyn yn ogystal â chreu, integreiddio a diogelu a/neu wella ymdeimlad o gymuned ac i hyrwyddo cydraddoldeb.

Beth wnaethom ei ddarganfodd

Drwy'r ymgynghoriad, at ei gilydd cafodd 'Pobl a chymuned' sgôr o 4.9 allan o 10 yng Nghaerfyrddin

Mae'r dadansoddiad manylach yn dangos bod pobl yn teimlo y gallai fod mwy o ymagwedd 'tîm' tuag at ddyfodol Caerfyrddin a chyfle i gynnwys pobl i raddau mwy yn y dyfodol hwnnw.



Nododd yr ymgynghoriad y pwyntiau allweddol canlynol:

- **Amlygrwydd isel** – Nododd pobl rwystredigaeth gyda chyfathrebu gwael, diffyg amlygrwydd i ymgynghoriadau, a'r gred bod adborth yn cael ei anwybyddu. Nododd pobl hefyd nad oedd diweddariadau yn cael eu rhannu'n ystyrlon
- **Gwneud penderfyniadau** – Mae yna rwystredigaethau ynglŷn â phenderfyniadau sy'n cael eu hystyried yn rhai a gaiff eu gwneud heb ymgysylltu priodol
- **Mwy o dryloywder** – Nododd pobl awydd am fwy o weithgareddau dylunio ar y cyd, mwy o wrando a gwell cyhoeddusrwydd

Nododd ein hadolygiad ein hunain a'r ymgynghoriad y canlyniadau creu lleoedd canlynol ar gyfer pobl a chymunedau yng Nghaerfyrddin:

- Mwy o gyfleoedd i bobl fod yn rhan o ddatblygiad y dref
- Mwy o gydweithio rhwng y llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill
- Mwy o gyfleoedd i bobl ifanc
- Creu mwy o gyfleoedd i bobl hŷn
- Gwella cyfathrebu
- Gwella trefniadau gweithio mewn partneriaeth â'r sector preifat a'r trydydd sector
- Mwy o ddefnydd o greu lleoedd i gael trefi iachach
- Cydlynu polisïau/prosesau mewnol y Cyngor yn well i gefnogi datblygiad canol y dref

Roedd yr adborth a gawsom drwy'r ymgynghoriad yn cynnwys:

"Mwy o gyfarfodydd agored. Sesiynau wyneb yn wyneb. Senedd ieuenctid. Bwrdd ymgysylltu sy'n cynnwys cynghorwyr a thrigolion."

"Mae pobl yng Nghaerfyrddin yn groesawgar ac yn barod i helpu"

"Fe wnes i gwblhau'r cais 3 gwaith i gael gwybod trwy e-bost pan fydd ymgynghoriadau'n mynd yn fyw, nid wyf byth yn cael unrhyw hysbysiadau. Rwyf wedi ysgrifennu gwpl o weithiau am broblemau sbwriel ... dim ymateb. Ysgrifennais am ymholiad cynllunio brys, cefais ymateb yn dweud ei fod wedi'i basio, ond dim ateb eto .... felly ar y cyfan, mae cyfathrebu a chysylltu â chynghorau lleol yn ddiwerth."

"Tref Gymreig draddodiadol gyda'r cyfle i gefnogi busnesau annibynnol lleol"

Y Strategaeth

Rydym yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar draws pob un o'r chwe egwyddor creu lleoedd. Gallwch ddarllen pob adran neu fynd i'r rheiny sydd o fwyaf o ddiddordeb i chi.


Camau gweithredu

Rydym wedi creu codau lliw ar gyfer y camau gweithredu i helpu i ystyried pwy sydd fwyaf tebygol o arwain ar y camau hyn ac felly â phwy i gysylltu os oes gennych ddiddordeb mewn rhoi pethau ar waith:

- Mae **gwyrdd** yn gamau gweithredu y gall Cyngor Sir Caerfyrddin arwain arnynt
- Mae **oren** yn gamau gweithredu y gellir eu cyflawni mewn partneriaeth ag eraill yn unig

Lleoliad

Canlyniad	Cam Gweithredu (Gweler tudalen 41 am yr Allwedd i'r lliwiau)	Blaenoriaeth
Mwy o weithredu ynghylch polisi cynllunio canol y dref yn gyntaf	Asesu'r datblygiadau newydd, gan gynnwys dyfodol yr asedau presennol sy'n eiddo i'r Cyngor o ran yr effaith y maent yn ei chael ar ganol y dref	Canolig
Gwella cysylltiadau â Glan-yr-afon a'r defnydd o'r ardal	Archwilio cyfleoedd ar gyfer strwythurau dros dro sy'n cyd-fynd ag asesiadau perygl llifogydd a allai ategu hyn fel cyrchfan yn y dref	Uchel
Cryfhau ffurf ofodol y dref	Amddiffyn cefnau adeiladau diamddiffyn trwy ailsefydlu blociau a chysylltiadau allweddol. Ystyried y potensial o greu datblygiad mewnlenwi ym maes parcio Heol Ioan ar hen safle'r ysgol	Isel
Datblygu adeiladau allweddol strategol	Adolygu adeiladau gwag allweddol a datblygu strategaethau a dulliau ariannu ar gyfer gwneud defnydd ohonynt unwaith eto	Uchel
Gwella cysylltiadau â llwybrau beicio a chefn gwlad cyfagos	Gwell cysylltiadau ffisegol rhwng canol y dref a llwybrau teithio llesol (yn benodol, gwella'r groesfan i gerddwyr o ganol y dref i'r orsaf drenau) yn ogystal ag arwyddion sy'n annog pobl i oedi yng nghanol y dref, ond hefyd defnyddio canol y dref fel man cychwyn i archwilio ohoni	Uchel
Gwella cysylltedd	Gwella'r cysylltiadau rhwng y patrwm strydoedd hanesyddol a'r blociau sydd union gerllaw. Cyflwyno ymyriadau dylunio i wella'r pyrth llai hyn	Uchel
Cydnabod a chofleidio'r ffurf drefol hanesyddol ar gyfer pob datblygiad yn y dyfodol trwy gael dyluniad trefol cryf	Datblygu set o reolau syml ar gyfer dylunio trefol gan gynnwys defnyddiau cymysg, blociau perimedr gyda ffryntiadau gweithredol, dwysedd da, ac adeiladau o amrywiol faint a math	Uchel
Gwella'r modd o fesur a chyfathrebu cynnydd	Sefydlu offeryn 'gwiriad iechyd canol trefi'	Uchel
	Darparu adroddiad 'Sefyllfa'r Dref' drwy'r Fforwm Tref bob blwyddyn	Canolig


URBAN
FOUNDRY
Gwell blociau
Safleoedd ailddatblygu allweddol
Lonydd
'Lleoedd' ar y stryd
Creu ffryntiadau gweithredol
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025. Arolwg Ordnans 100023377
© Crown Copyright and database rights 2025. Ordnance Survey 100023377

Yr amgylchfyd cyhoeddus

Canlyniad	Cam Gweithredu (Gweler tudalen 41 am yr Allwedd i'r lliwiau)	Blaenoriaeth
Cynnal a chadw a gwella mannau presennol	Archwilio am gyfleoedd perchnogaeth gymunedol ar gyfer mannau amgylchfyd cyhoeddus	Uchel
Gwella edrychiad, teimlad a defnydd y prif sgwariau	Gwella Maes Nott a'r Clos Mawr fel canolfannau'r dref. Annog caffis/bariau/bwytai i ddarparu mannau eistedd yn yr awyr agored	Uchel
Mwy o seilwaith gwyrdd ar hyd a lled y dref	Nodi cyfleoedd gwyrddu ar draws y dref gyda strategaeth seilwaith gwyrdd yng nghanol y dref. Sicrhau bod amserlenni cynnal a chadw digonol ar waith gyda chyllid	Uchel
Mwy o ddefnydd o'r strydlun	Cael gwared ar rwystrau i fyrddau/cadeiriau fod ar y stryd gan fariau/caffis/bwytai. Gosod rhai rheolau syml ac ymgysylltu â darparwyr lleol i sicrhau ansawdd. Cynorthwyo gyda rhywfaint o gymorth ariannol i ysgogi ansawdd	Uchel
	Gosod pwyntiau pŵer er mwyn lleihau costau digwyddiadau dros dro	Isel
	Annog a chefnogi potensial ar gyfer digwyddiadau yng Nghanol y Dref, darparu cyfleoedd ar gyfer cefnogaeth 1:1 i bob cydgysylltydd digwyddiadau	Uchel
Mwy o gyfleoedd i chwarae yn y strydlun	Edrych ar gyfleoedd i gyflwyno gweithgareddau chwarae yng nghanol y dref	Canolig
Gwneud mwy i ddathlu treftadaeth y strydoedd	Cynllun goleuo'r amgylchfyd cyhoeddus i gynnwys adeiladau allweddol	Canolig
	Gŵyl oleuadau flynyddol yn ystod misoedd tywyllach y gaeaf	Uchel
Tref lanach	Creu cynllun rheoli cyrchfan ar gyfer yr amgylchfyd cyhoeddus Cynnwys y dref gyfan - dull 'tîm' i wneud iddo weithio. Ystyried sut mae sbwriel yn cael ei drin yn ogystal â chyfundrefnau glanhau	Uchel
Tref fwy croesawgar	Ystyried datblygu cynllun Croeso i Gaerfyrddin - gan gynnwys llysgenhadon stryd a fyddai'n croesawu pobl i'r dref ac yn darparu cymorth.	Canolig



Cerflun dros dro yn Plymouth



Darparwyd y llun trwy garedigrwydd Robert Bray Associates

Draeniau trefol cynaliadwy amlswyddogaethol yn Llundain



Dargyfeirio pibelli i erddi glaw – seilwaith gwyrdd syml, cost isel yn Abertawe



Draenio trefol ar raddfa fach yn Portland, Oregon

Symudiad

Canlyniad	Cam Gweithredu (Gweler tudalen 41 am yr Allwedd i'r lliwiau)	Blaenoriaeth
Gwella opsiynau i bobl sy'n cerdded a ceiclo	Gweithio gyda Teithio Llesol i nodi cyfleoedd ar gyfer llwybrau beicio newydd. Gwella'r cysylltiadau â chanol y dref ar gyfer y llwybrau beicio presennol. Ymgorffori mannau parcio beiciau gwell (diogel) yng nghanol y dref mewn gwahanol leoliadau	Uchel
Gwella'r cydbwysedd yng nghanol y dref rhwng ceir a cherddwyr	Gorfodi a gwella'r parthau dim ceir presennol ym Maes Nott/Y Clos Mawr/Heol Goch	Uchel
	Annog pobl i rannu ceir a chymell cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus i weithwyr yng nghanol y dref i ryddhau mannau parcio	Canolig
	Ail-drefnu mannau parcio ceir i ryddhau lle i'w ddatblygu ac i leihau nifer y teithiau gan bobl sy'n chwilio am leoedd parcio	Isel
	Gwella'r ddarpariaeth barcio yn yr orsaf drenau i annog defnyddwyr arhosiad hir i barcio ar ardaloedd gorlifdir anodd eu datblygu, gan ryddhau lle i'w ddatblygu yng nghanol y dref gan gadw lleoedd parcio	Isel
	Creu baeau arhosiad byr iawn er mwyn codi/gollwng	Isel
	Annog datblygu amseroedd penodol ar gyfer dosbarthu nwyddau er mwyn lleihau'r pwysau ar ganol y dref – er enghraifft, yn gynnar yn y bore	Canolig
	Creu baeau dosbarthu er mwyn i gerbydau llai sy'n dosbarthu trwy gydol y dydd (Amazon/DPD ac ati) allu parcio'n gyfreithlon am gyfnodau byr	Isel
Gwella cysylltiadau'r lonydd	Glanhau a goleuo'r lonydd oddi ar Heol y Brenin yn well i'w diogelu trwy ddyluniad.	Canolig
Gwella trafnidiaeth gyhoeddus	Gweithio gyda darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus i wella amlder a dibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus	Uchel
Annog mwy o bobl i wneud arosiadau byr ar y ffordd	Yn ystod misoedd yr haf darparu opsiwn parcio ar lan yr afon a thrên tir neu fws gwennol am ddim i ganol y dref gydag arwyddion a chyhoeddusrwydd effeithiol. Annog traffig sy'n mynd i orllewin Cymru i aros i gael bwyd a gweld o gwmpas cyn cyrraedd eu cyrchfannau terfynol	Uchel
Gwell mynediad i ganol tref Caerfyrddin ar gyfer teithiau arhosiad byr	Darparu 30 munud o barcio am ddim ar draws pob ardal	Uchel



Sarlat la Caneda



Reims

Cymysgedd o ddefnyddiau

Canlyniad	Cam Gweithredu (Gweler tudalen 41 am yr Allwedd i'r lliwiau)	Blaenoriaeth
Gwella'r cymysgedd o ddefnyddiau yng nghanol y dref	Archwilio opsiynau trwy'r system gynllunio a gweithredu uniongyrchol i gefnogi defnydd preswyl yn y dref, yn enwedig uwchben siopau a datblygiadau mewnlenwi lle bo hynny'n briodol. Mae'n hanfodol bod hyn o gymysgedd o fath a deiliadaeth	Uchel
	Archwilio dulliau o gryfhau'r economi nos a'r economi profiad. Gweithio gyda'r Brifysgol i wneud y mwyaf o incwm myfyrwyr	Uchel
	Nodi sut y gellir diogelu a gwella asedau diwylliannol presennol trwy ymgysylltu â pherchennog/gweithredwyr safleoedd allweddol. Cynnal gweithdy i sefydlu eu cyfleoedd a'u cyfyngiadau a datblygu cynllun cymorth o gamau gweithredu bach	Uchel
	Annog busnesau lleol i hyrwyddo a chefnogi ei gilydd a'u cynorthwyo i wneud hynny	Uchel
Cynyddu'r defnydd o'r amgylchfyd cyhoeddus ar gyfer hamdden	Datblygu ardaloedd eistedd i wella'r amgylchfyd cyhoeddus a rhoi cyfleoedd i oedi. Ystyried cysur/gwedd/cysgod/tywydd gwlyb wrth ddylunio	Uchel
	Ymgorffori elfen mewn strategaeth ddigwyddiadau sy'n canolbwyntio'n benodol ar weithgareddau dros dro ar raddfa fach ar y stryd	Canolig
Mwy o fusnesau newydd yn derbyn cymorth	Cefnogi rhanddeiliaid i ddatblygu gofod ar gyfer siopau sionc a mannau 'defnydd yn y cyfamser'.	Uchel
	Cysylltu busnesau newydd â chymorth busnes presennol	Uchel



Prosiect dros dro Unit Nineteen yn Abertawe



Siop dros dro Blue Marble yng Nghaerfyrddin



Menter dros dro Stryd Adare ym Mhen-y-bont ar Ogwr



Mannau dros dro a gyflwynwyd yng Nghaerfyrddin yn flaenorol




MAKE & MEND a MELIN
Melin Vintage Clothing
@MelinCarmarthen
Make & Mend Upholstery + Upcycling Workshop
@Makemendworkshop
Learn to upholster! Sign up for a free or paid Workshop!
MAKE & MEND
Workshop

Hunaniaeth

Canlyniad	Cam Gweithredu (Gweler tudalen 41 am yr Allwedd i'r lliwiau)	Blaenoriaeth
Mwy o ymdeimlad o hunaniaeth i'r dref	Datblygu brand tref clir sy'n dathlu hunaniaeth unigryw Caerfyrddin	Uchel
	Datblygu strategaeth ddiwylliannol ar lefel tref	Uchel
Arddangos y dreftadaeth adeiledig yn well	Ariannu prosiectau goleuo i wella treftadaeth adeiledig	Isel
	Cefnogi perchnogion eiddo i ymgysylltu â'r tîm Treftadaeth Adeiledig wrth gynnal adeiladau er mwyn cydymffurfio â gofynion ardaloedd cadwraeth a threftadaeth y dref	Isel
	Sicrhau cysondeb arwyddion o fewn yr ardal gadwraeth trwy ganllawiau a chymorth dylunio clir	Canolig
	Rhoi'r Castell ar waith, gweithio gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, grwpiau o'r trydydd sector a Cadw i gyflawni hyn	Uchel
	Ailsefydlu hunaniaeth marchnad y dref. Datblygu'r farchnad dan do a'r farchnad stryd ymhellach.	Canolig
Datblygu elfen o hunaniaeth glan afon	Annog digwyddiadau/gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar gwryglau, cychod a'r afon yn ystod misoedd yr haf	Uchel
Cryfhau'r sail ddiwylliannol (gref) bresennol	Sefydlu fforwm sector creadigol, sydd â chynrychiolydd ar y Fforwm Tref. Darparu ysgrifenyddiaeth ar gyfer y fforwm hwnnw	Uchel
	Nodi arwyr brand diwylliannol Caerfyrddin a sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi'n dda fel llysgenhadon brand ar gyfer y dref.	Uchel
Brandio lleoedd diwylliannol yn well	Datblygu brand lle, wedi'i seilio ar ddiwylliant, sy'n cwmpasu treftadaeth hanesyddol a ffuglen y dref (nid oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud o storïau/treftadaeth Myrddin, y Rhufeiniaid a'r oesoedd canol) ynghyd â chryfderau cyfoes y dref mewn celf a diwylliant	Uchel
	Cefnogi rhanddeiliaid i wneud cais am fod yn Dref Diwylliant pan fo'n briodol	Uchel
Gwella ymdeimlad o fywiogrwydd ar y stryd	Datblygu strategaeth ddigwyddiadau gan ymgysylltu â phartneriaid allanol ar gyfer y dref a chysylltu hyn â gwaith amgylchfyd cyhoeddus	Uchel
Integreiddio Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn well i hunaniaeth ac ymdeimlad o le y dref	Datblygu brand clir i'r dref fydd yn dathlu hunaniaeth unigryw Caerfyrddin	Uchel
	Datblygu strategaeth i hyrwyddo Caerfyrddin fel lleoliad ffilmio. Gweithio'n rhanbarthol i greu portffolio o leoliadau yn Ne-orllewin Cymru i hyrwyddo ei gilydd	Isel

Canlyniad	Cam Gweithredu (Gweler tudalen 41 am yr Allwedd i'r lliwiau)	Blaenoriaeth
Gwella dealltwriaeth o hanes a'i hyrwyddo	Dathlu enwau lleoedd: Porth Tywyll, Heol Goch a Heol Las, Heol y Brenin a Heol y Frenhines Dylid adlewyrchu eu hanes nid yn unig yn yr enwau eu hunain ond hefyd ar ffurf gwybodaeth ac yn y strydlun yn y lleoliadau hyn	Canolig
	Datblygu llwybrau hunan-dywys digidol	Canolig
	Datblygu a helpu i hyrwyddo teithiau cerdded drwy'r dref	Uchel
	Gwella'r cysylltiadau rhwng y dref ac amgueddfa Abergwili. Oherwydd y pellter sydd rhwng y ddau le, dylid canolbwyntio ar gysylltu'r amgueddfa â Chaerfyrddin trwy arwyddion a themâu yn hytrach na thrwy gysylltiadau ffisegol.	Uchel
	Gwella arwyddion gwybodaeth a'u cysylltu â llwybrau digidol	Uchel
Cryfhau'r Gymraeg drwy weithgareddau creu lleoedd	Creu strategaeth Gymraeg hawdd ei gweithredu sydd wedi'i chynllunio gyda'r holl bartneriaid mewn golwg i helpu i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith bob dydd	Isel



Mynedfa Theatr y Lyric



Sylw syml i fanylion sy'n tynnu sylw at dreftadaeth



'Neuadd fwyd y farchnad yn Cahors



Goleuadau nodwedd ar adeiladau o arwyddocâd yn Lille

Pobl a chymuned

Canlyniad	Cam Gweithredu (Gweler tudalen 41 am yr Allwedd i'r lliwiau)	Blaenoriaeth
Mwy o gyfleoedd i bobl fod yn rhan o ddatblygiad y dref	Parhau i ail-ffocysu'r Fforwm Tref. Sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar yrru newid (rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol). Datblygu diwylliant o ddull 'tîm', gan gynnwys cynyddu'r ddealltwriaeth o'r cyfyngiadau y mae awdurdodau lleol yn gweithredu oddi tanynt	Uchel
	Creu rhaglen o ymgysylltu â'r gymuned yn rheolaidd ynglŷn â datblygiad y dref	Uchel
Mwy o gydweithio rhwng y llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill	Creu strategaeth fwy cydgysylltiedig rhwng y Cyngor Sir a'r Cyngor Tref ar gyfer cyflawni ac ariannu creu lleoeddfinancing	Canolig
Creu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc	Cefnogi mentrau sy'n gweithio gyda phobl ifanc	Uchel
Creu mwy o gyfleoedd i bobl hŷn	Sicrhau bod pob dyluniad a phensaernïaeth drefol yn y dyfodol yn ystyried poblogaeth sy'n heneiddio. Mae hyn yn cynnwys lled palmentydd, cyrbau isel, pafin teimlo ac ati. Asesu risg y rhai presennol ac ôl-osod lle bo angen	Uchel
Gwella trefniadau gweithio mewn partneriaeth â'r sector preifat a'r trydydd sector	Archwilio sut y gall partneriaid gael y wybodaeth hon allan i'w gwneud yn ariannol hyfyw, wedi'i chydlynu'n ganolog ond heb o reidrwydd fod angen lleoliad wedi'i staffio'n gorfforol sydd ar agor bob dydd	Uchel
	Nodi 'arwyr' lleol Caerfyrddin a'u dathlu. Gweithio gyda nhw fel llysgenhadon y dref mewn ffordd gydlynol	Uchel
Mwy o ddefnydd o greu lleoedd i gael trefi iachach	Dod â gofal iechyd yn agosach at bobl drwy fabwysiadu cwestiwn 'canol tref yn gyntaf' ar gyfer pob penderfyniad yn y dyfodol sy'n ymwneud â chyfleusterau gofal iechyd	Uchel
Cydlynu polisïau/prosesau mewnol y Cyngor yn well i gefnogi datblygiad canol y dref	Cynnal cyfarfodydd traws-sector rheolaidd o fewn y Cyngor sy'n canolbwyntio ar gamau creu lleoedd ar lefel uwch swyddogion	Canolig
	Archwilio sut y gellir gwella trefniadau caffael i gryfhau busnesau yng nghanol y dref (ac yn fwy cyffredinol busnesau yn Sir Gaerfyrddin)	Uchel
	Mabwysiadu gwerth cymdeithasol yn yr holl waith caffael	Uchel





Gweithdy ymgynghori greu lleoedd



Newid ar waith

Caiff y gwaith o greu lleoedd ei gyflawni gan bartneriaeth. Mae'n amlwg bod gan Gyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Tref Caerfyrddin rôl bwysig ochr yn ochr â chyrff sector cyhoeddus eraill. Ond partneriaid ehangach gan gynnwys trigolion, y sector cymunedol a gwirfoddol a'r sector preifat fydd yn helpu i gyflawni'r newid a nodir yn y strategaeth hon.

Newid ar waith yng Nghaerfyrddin

Mae gan Gaerfyrddin eisoes Fforwm Tref. Mae'r grŵp hwn yn dwyn ynghyd bobl o bob rhan o'r dref, a byddant yn gyfrifol am yrru camau allweddol o fewn y strategaeth. Ond gall unrhyw un gymryd rhan. Os oes gennych syniad am sut i fwrw ymlaen ag un o'r camau gweithredu a nodir yn y strategaeth hon, cysylltwch â Chyngor Sir Caerfyrddin i drafod camau cyntaf sut i symud ymlaen.

Bydd y Fforwm Tref yn adolygu metrigau allweddol i ddeall y cynnydd sy'n cael ei wneud ar draws pob un o'r ardaloedd. Darperir fframwaith manwl yn yr atodiad technegol, ond bydd cynnydd yn cael ei farnu ar sail y meysydd canlynol.

Thema creu lleoedd	Dangosydd	Pwyntiau allweddol
Lleoliad	Nifer yr ymwelwyr Lefel gweithgarwch economaidd Lefel diweithdra	Bydd hyn yn ein helpu i ddeall sut mae pobl yn defnyddio'r dref a beth yw cryfder sylfaenol y dref
Amgylchfyd Cyhoeddus	A yw'r amgylchedd lleol yn ddymunol ac yn derbyn gofal da (Arolwg Preswylwyr Sir Gâr)	Bydd hyn yn rhoi synnwyr cyffredinol i ni o sut mae'r amgylchfyd cyhoeddus yn cael ei weld
Symudiad	Boddhad â thrafnidiaeth (Arolwg Preswylwyr Sir Gâr) Metrau o lonydd beicio a grëwyd neu a wellwyd	Caiff trafnidiaeth gyhoeddus ei rheoli y tu allan i awdurdodau lleol. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw'r cynnydd yn gwella
Cymysgedd o ddefnyddiau	Nifer yr unedau gwag Adeiladau sy'n cael eu defnyddio unwaith eto	Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw adeiladau allweddol yn cael eu defnyddio yng nghanol y dref ac a oes galw mawr neu fel arall am leoedd sydd ar gael yn y dref
Hunaniaeth	Cynnydd mewn ymweliadau â'r dudalen we Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i'r gyrchfan y cytunwyd arni Ydych chi'n hoffi byw yn Sir Gaerfyrddin Canran y siaradwyr Cymraeg	Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw'r camau gweithredu yn cefnogi trigolion lleol, ymwelwyr a'r Gymraeg
Pobl a Chymuned	A yw'r Cyngor yn rhoi cyfleoedd i gymryd rhan mewn penderfyniadau (Arolwg Preswylwyr Sir Gâr)	Bydd hyn yn ein helpu i ddeall sut mae pobl yn gweld gwasanaethau'r Cyngor.

I fod yn rhan o'r gwaith o gyflawni elfennau o'r cynllun, cysylltwch â ni i drafod sut y gallwch gymryd rhan yn Trefi@sirgar.gov.uk

URBAN

FOUNDRY